Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

Fideogynhadledd drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Llun, 18 Hydref 2021

Amser: 13.30 – 15.01

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12450

O bell

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd) Rhys ab Owen AS Alun Davies AS Peter Fox AS
Staff y Pwyllgor:	P Gareth Williams (Clerc) Sarah Sargent (Ail Glerc) Sara Moran (Ymchwilydd) Gruffydd Owen (Ymchwilydd) Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) Samiwel Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon.

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

Mewn sesiwn breifat, o dan Reol Sefydlog 17.22, cytunodd y Pwyllgor i ethol Alun Davies AS yn gadeirydd dros dro ar gyfer holl gyfarfodydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y dyfodol, pe bai nam technegol yn effeithio ar gysylltiad y Cadeirydd.

2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

2.1 SL(6)062 – Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a derbyniodd ei adroddiad drafft.

3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

3.1 SL(6)063 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

3.2 SL(6)064 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

4 Papurau i'w nodi – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

4.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Cyfarfod Pedrochrog y Gweinidogion Cyllid

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

4.2 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Adeiladau

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Gweinidog Newid Hinsawdd. Nododd y Pwyllgor y byddai'n derbyn tystiolaeth gan y Gweinidog mewn perthynas â'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Adeiladu a'r Bil Diwygio Prydles (Rhent Tir) ar 15 Tachwedd 2021.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig

6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar - trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor fersiwn ddiwygiedig o'i adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar, a chytunodd arno. Nododd y Pwyllgor y byddai'r adroddiad yn cael ei osod erbyn y dyddiad cau gofynnol.

7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol - trafod yr adroddiad drafft.

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol, a chytunodd arno. Nododd y Pwyllgor y byddai'r adroddiad yn cael ei osod erbyn y dyddiad cau gofynnol.

8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Iechyd a Gofal

Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Iechyd a Gofal, a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch llawer o faterion yn ymwneud â'r Memorandwm.

9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Etholiadau

Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Etholiadau, a chytunodd i drafod ei adroddiad ar y Memorandwm mewn cyfarfod yn y dyfodol.

10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd)

Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd), a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i ofyn am eglurhad ar nifer o faterion mewn perthynas â'r Memorandwm.